HANES CYMRU

Cylchlythyr myfyrwyr
Hanes y Coleg Cymraeg
Rhif 4. Mawrth 2017

Cynhadledd 2017 – Cyflwyniadau ar y Porth

Cynhaliwyd Cynhadledd hynod ddiddorol yn Amgueddfa Sain Ffagan ar 22 Chwefror. Cafwyd cyflwyniadau amrywiol ar thema 'Dosbarth a Rhywedd' a bydd tri o'r cyflwyniadau i'w gweld ar y Porth yn fuan. Y tri yw:

'Y Dosbarth Gweithiol neu'r Werin?: Cymdeithasiaeth neu Sosialaeth: rhai problemau wrth gyfieithu radicaliaeth' – Dr Martin Wright, Caerdydd. Cyflwyniad hynod o ddiddorol ar sut aeth y Cymry ati i gyfieithu ac addasu syniadaeth newydd sosialaeth i'r diwylliant Cymraeg ... a rhagfarn sawl person at yr iaith.

'"Gwarth" Hattie Williams: Dosbarth, Rhywedd ac Ymfudo ymhlith gweithwyr tunplat Cymru ar ddiwedd y G19' – Yr Athro Bill Jones. Roedd yn arferol i fenywod weithio yn y gweithfeydd tunplat yng Nghymru, ond nid yn yr UDA. Wynebodd Hattie druan ragfarn gan Americanwyr a Chymry America am fynnu gweithio.

'Merched Cymru ar Gofebau i'r Rhyfel Mawr' – Dr Gethin Matthews, Darlithydd Cenedlaethol CCC. Ynghanol canmlwyddiant y Rhyfel ceir sylw i'r dynion bu farw, ond beth am y menywod? Cyflwyniad sy'n rhoi sylw i'r menywod hynny bu farw, gan amlaf, yn y ffatrïoedd arfau neu fel meddygon wrth wasanaethu a chyfrannu at ymdrech y Rhyfel.

Gwrando ar Leisiau'r Gorffennol

Mae'r darlithydd cenedlaethol, Dr Gethin Matthews, yn cynnal grŵp seminar sydd yn ystyried hanes llafar, fel rhan o fodiwl hanes yr ail flwyddyn yn Abertawe, 'Practice of History'. Blwyddyn nesaf, bydd cyfle i'r myfyrwyr wrando ar gyfweliad Gwynfor Hughes, a'i ddadansoddi.

Mae'r myfyriwr hanes Dafydd Jones yn ysgrifennu ei draethawd hir ar brofiadau milwyr o Gymru yn y ddau Ryfel Byd. Un o'r ffynonellau gwreiddiol y mae'n defnyddio ar gyfer ei ymchwil yw casgliad o lythyrau gan Will Hughes, dyn ifanc o Bow Street, Ceredigion, a wirfoddolodd ar gyfer y fyddin yn 1914 ac a wasanaethodd ar Ffrynt y Gorllewin am ddwy flynedd cyn cael ei anafu.

Ym mis Chwefror 2017, cyfarfu Dafydd â mab Will, Gwynfor Hughes, a chynnal cyfweliad gydag yntau am ei brofiadau yn yr Ail Ryfel Byd. Ymunodd Gwynfor fel peilot gleidars yn 1941. Roedd yn un o'r peilotiaid a gludodd llond awyren o filwyr i Arnhem ym mis Medi 1944, fel rhan o *Operation Market Garden* – menter a ddaeth yn enwog yn sgil y ffilm 'A Bridge Too Far'.

Meddai Dafydd,

"Roedd yn bleser i gyfarfod â Gwynfor ac i glywed wrtho'n uniongyrchol am ei brofiadau yn enwedig gan fod ei dad wedi troi'n heddychwr selog yn sgil y Rhyfel Mawr. Wrth ystyried y cefndir hynny, roedd yn rhyfedd i glywed sut aeth Gwynfor ymlaen i fod yn rhan o un o fentrau mwyaf beiddgar yr Ail Ryfel Byd."

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Pwy 'di Pwy – Meilyr Powel

Un o le ydych chi a beth yw'ch hanes cyn dechrau'r PhD?
Rwy o ardal Treforys, Abertawe. Es i i Ysgol Gyfun Gwyr. Astudiais Gwleidyddiaeth Rhyngwladol a Hanes Milwrol ym Mhrifysgol Aberystwyth, yna gradd Meistr mewn Astudiaethau Strategol y flwyddyn ddilynol. Treuliais gyfnod yn gweithio yn Amgueddfa'r Glannau, Abertawe cyn symud i Gaerdydd i weithio am bedair mlynedd gyda chwmni cynhyrchu teledu, Rondo Media. Dychwelais i i'r byd academaidd yn 2014 i ddechrau'r PhD.

Beth yw pwnc eich PhD?
Rwy yn yr adran Hanes ym Mhrifysgol Abertawe, a ffocws fy ymchwil yw agweddau o'r wasg Gymreig yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Pam gwneud PhD?
Diddordeb mewn hanes milwrol a hanes Cymru ers oes! Roedd cwpwl o syniadau gennyf i cyn penderfynu ar y pwnc dwi'n ei wneud, ond penderfynais ar agwedd diwylliannol o brofiad Cymreig y Rhyfel Byd Cyntaf, sydd ddim wedi derbyn llawer o sylw, yn enwedig o ran triniaeth y wasg.

Gawsoch chi gefnogaeth gan y Coleg Cymraeg i wneud y PhD?
Do. Gwnes i gais am ysgoloriaeth PhD, a rywsut fe lwyddais i.

Beth hoffech chi wneud ar ôl gorffen y radd ymchwil?
Aros yn y byd academaidd / ymchwil, ac ail ymuno â'r Undeb Ewropeaidd!

Meilyr Powel, myfyriwr PhD yn Abertawe dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Newydd ar y Porth

Mae'n werth cadw llygad ar y Porth (fersiwn y Coleg Cymraeg o'r Blackboard). Ceir yno lyfrau wedi eu hail-gyhoeddi, darlithoedd a chyflwyniadau. Dyma rhai:

'Byd newydd ymha un y preswylia cyfiawnder': Gweledigaeth Morgan John Rhys (1760 –1804) – Cynan Llwyd sy'n agor y drws ar un o gymeriadau mwyaf diddorol cyfnod y Chwyldro Ffrengig yng Nghymru a'i ymdrech i sefydlu gwladfa yng Ngogledd America. Ceir yr erthygl yn y rhifyn ddiweddaraf o Gwerddon hefyd.

Iechyd ac iachawdwriaeth: meddygaeth, y corff a'r drefn foesol ym Mengâl drefedigaethol 1840-1935 – Erthygl gan yr Athro Aled Gruffudd Jones sy'n dweud llawer am natur iechyd, crefydd ac imperialaeth y Cymry ac India. Ymddangosodd gyntaf yn Gwerddon.

Codi Pontydd Cymru – erthygl arall bu ar Gwerddon, y tro hwn gan yr Athro Ben Barr. Prin iawn yw'r olion o bontydd yng Nghymru cyn y cyfnod modern cynnar. Mae'r erthygl yn edrych ar ddulliau o godi pontydd, eu deunydd a beth mae hynny'n dweud am natur cymdeithas a masnach Cymru.

Dinasyddiaeth Bur ac Areithiau Eraill – tair darlith a draddodwyd i chwarelwyr y Gogledd gan Syr Henry Jones. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1911 a'i ail-gyhoeddi fel e-gyhoeddiad gan y Coleg Cymraeg. Erthyglau diddorol a defnyddiol i unrhyw un sy'n cymryd diddordeb mewn hanes cymdeithasol, gwleidyddol a bro'r chwareli.

@HanesCCC
Dilynwch @HanesCCC am y diweddaraf am ddigwyddiadau Hanes fel pwnc o fewn y Coleg Cymraeg. Mae croeso i chi gysylltu â Siôn Jobbins, 01970 622893 s.jobbins@colegcymraeg.ac.uk gyda newyddion at 'Hanes Cymru'.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol